


### GWNEUD BATRI LLYSIAU

- ⚡ Rhowch un wasier sinc, yna darn o daten ac yna un darn o gopr ar y wialen kebab
- ⚡ Cysylltwch un wifren o'r Foltmedr Digidol i'r copr, ac un i'r wasier sinc
- ⚡ Gwasgwch y frechdan sinc, tatws a chopr at ei gilydd
- ⚡ Cofnodwch y foltedd

Ychwanegwch frechdan sinc, tatws a chopr arall a chofnodwch y foltedd, gwnewch hyn eto gyda thair brechdan...



### SUT MAE'N GWEITHIO?

- ⚡ Mae tatws (a ffrwythau a llysiau eraill) yn cynnwys asidau ac yn dargludo trydan
- ⚡ Mae'r asid yn adweithio â'r copr a'r sinc sy'n achosi adwaith cemegol o'r enw cyrydiad, sy'n rhyddhau electronau (Metel + asid -> halwyn metel + hydrogen)
- ⚡ Mae hyn yn creu gwahaniaeth potensial (foltedd) rhwng y copr a'r sinc sy'n achosi electronau yn y wifren i lifo, sy'n creu cerrynt trydanol
- ⚡ Mae'r cerrynt trydanol yn cynhyrchu pŵer i ddefnyddio offer trydanol



METEL-POSITIF  
(Copr mewn batri tatws)

DARGLUDO  
LLENWAD ASIDIG  
(Tatws mewn batri tatws)

METEL-NEGATIF  
(Sinc mewn batri tatws)

### GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Cofnodi a sylwi ar yr hyn sy'n digwydd pan fyddwch chi'n defnyddio:

- ⚡ Gwahanol niferoedd o unedau copr/tatws/sinc
- ⚡ Gwahanol llysiau a ffrwythau - beth sy'n digwydd i'r foltedd
- ⚡ Tatws o drwch gwahanol
- ⚡ Gwahanol fetelau - haearn yn lle sinc

Allwch chi ddefnyddio'r pŵer i oleuo Cloc LED neu LCD?

